

# ichthus

**CYLCHGRAWN CHWARTEROL EGLWYS BEREA NEWYDD, BANGOR**  
Rhif 1 Cyfrol 14 Ionawr 2017

[www.gofalaethbangor.org](http://www.gofalaethbangor.org) - 01248 353132 (swyddfa)

## **Pedwar gŵr doeth (a hapus!)**



**MWY O LUNIAU'R PARTI NADOLIG AR Y CLAWR CEFN**

# GWASANAETHAU'R SUL

10.00: OEDFA DEULUOL GAN GYNNWYS YSGOL SUL Y PLANT

11.00: YSGOL SUL YR OEDOLION 5.30: OEDFA'R NOS

**Chwefror 5** Gwasanaeth Teuluol i  
lansio Corwynt Cariad  
yn y bore: Gweinidog  
Cymun yn yr hwyr

**Chwefror 12** Parch. Dafydd Rees  
Roberts

**Chwefror 19** Gweinidog

**Chwefror 26** Undebol yn yr hwyr

**Mawrth 5** Gwasanaeth Gŵyl  
Ddewi Teuluol  
Gweinidog yn yr hwyr

**Mawrth 12** Parch. Cledwyn  
Williams

**Mawrth 19** Gweinidog

**Mawrth 26** Parch. Adrian Williams

**Ebrill 2** Gwasanaeth Teuluol yn  
y bore ar thema'r Pasg  
Gweinidog yn yr hwyr

**Ebrill 9** Parch. Trefor Lewis

**Ebrill 16** Gweinidog

**Ebrill 23** Parch. John Owen

**Ebrill 30** Parch. William Davies

## DYLETSWYDDAU BLAENOR Y PYTHEFNOS

**Chwefror 5 a 12** Delyth Oswy Shaw

**19 a 26** Menna Baines

**Mawrth 5 a 12** Maldwyn Thomas

**19 a 26** Gwenno Pritchard

**Ebrill 2 a 9** Liz Roberts

**16 a 23** Gareth Emlyn Jones

**30 a Mai 7** Eirian Howells

## DYLETSWYDDAU BLAENOR Y DRWS

**Chwefror 5** John Wynn Jones

**12 a 19** Cynthia Owen

**26 a Mawrth 5** Elin Walker Jones

**Mawrth 12 a 19** Gwenno Pritchard

**26 ac Ebrill 2** Arfon Evans

**Ebrill 9 a 16** Maldwyn Thomas

**23 a 30** Gwilym Roberts

**Mai 7 a 14** Delyth Oswy Shaw

## RHODDWYR Y BLODAU (Cydllynydd: Elizabeth Roberts - 353915)

**Ionawr 29** Gwenno Pritchard

**Chwefror 5** Meira Jones

**Chwefror 12** Astra Thomas

**Chwefror 19** Manon Davies

**Chwefror 26** Elizabeth Evans

**Mawrth 5** Beryl Stafford  
Williams

**Mawrth 12** Eleri W. Jones  
(Bedwyr)

**Mawrth 19** Betty Thomas

**Mawrth 26** Val P. Jones

**Ebrill 2** C. Frazer Jones

**Ebrill 9** Sioned Jones

**Ebrill 16** Laura Lewis

**Ebrill 23** Menna Baines

**Ebrill 30** Enyd Roberts

**Mai 7** Maisie Griffiths

# GAIR GAN Y GWEINIDOG

Y PARCHEDIG ELWYN RICHARDS

**E**r bod y flwyddyn eisoes yn heneiddio nid yw'n rhy hwyr i mi ddymuno blwyddyn newydd dda i bawb ohonoch. Diolch am eich cefnogaeth a'ch diddordeb yn yr Achos ar hyd y misoedd a aeth heibio, a hyderaf y bydd hynny'n parhau ar hyd y flwyddyn newydd.

Anfonwn fel eglwys ein cydymdeimlad cywiraf at bawb sydd mewn hiraeth ar ddechrau blwyddyn newydd, ac at bawb sy'n wael neu'n llesg, a dymunwn Dduw yn nodded ac yn nerth iddynt. Ymddengys y dyfodol yn ansicr mewn byd a betws, ond parhawn i roi ein ffydd yng ngwerthoedd yr efengyl wrth i ni geisio adlewyrchu ewyllys Iesu yn y byd.

Eleni yw blwyddyn apêl pum mlynedd y Cyfundeb ar y cyd â Chymorth Cristnogol. Mae'r bartneriaeth rhwng Eglwys Bresbyteriaidd Cymru a Chymorth Cristnogol yn ymestyn yn ôl dros nifer helaeth o flynyddoedd a chafwyd apeliadau hynod o lwyddiannus yn y gorffennol a wnaeth wahanïaeth mawr i fywydau rhai o bobl dlotaf y byd.

Fel y nodwyd yn ysgrif John Wynn Jones yn y rhifyn diwethaf o Ichthus, ac fel yr ymhelaetha Anna Jane Evans o Gymorth Cristnogol yn y rhifyn hwn, Ynysoedd y Pilipinas fydd yn cael ein sylw yn 2017. Er bod y wlad hon wedi datblygu llawer ers iddi ddod yn wlad annibynnol

yn 1945, mae tloedi difrifol yn parhau yno, yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig ac yn slymiau'r dinasoedd. Un o broblemau mawr y wlad yw'r corwyntoedd niferus sy'n ei tharo'n aml, ac oherwydd effeithiau newid hinsawdd mae'r corwyntoedd ar gynydd a'u dinistr yn ddychryn. Trawyd yr ynysoedd gan gorwynt enbyd dros y 'Dolig eleni, a chofiwn am effaith echrydus Corwynt Haiyan ar y wlad yn 2013. Nid rhyfedd, felly, yr enwyd apêl Eglwys Bresbyteriaidd Cymru a Chymorth Cristnogol yn 'Corwynt Cariad'.

Bydd Cymorth Cristnogol yn defnyddio'r arian a godir ar y cyd â thri phartner lleol yn y Pilipinas – UPA, FORGE a RWAN. Mae'r mudiadau hyn wedi eu gwreiddio'n ddwfn ymhlith trigolion tlotaf y wlad a byddwn yn clywed llawer am eu gwaith yn ystod blwyddyn ein hapêl. Bwriedir cynnal oedfa deulu ar fore Sul 5 Chwefror i dynnu sylw at y gofyn.

Y nod i Berea Newydd yw codi £15 yr aelod. Bydd cyfle maes o law i bob aelod gyfrannu'n unigol drwy amlen, ac edrychir ymlaen hefyd at gynnal sawl gweithgarwch i godi arian. Y mae'r ysgol Sul eisoes wedi penderfynu cynnal paned ar ôl yr oedfaon teulu er mwyn chwyddo'r coffrau a gobeithiant allu cynnal taith gerdded ar brynhawn Sul 14 Mai yn ogystal. Diolch hefyd am y casgliadau wnaed yn yr oedfaon ar y

Sul cyn y 'Dolig – rhannwyd yr arian (£280) rhwng Apêl Corwynt Cariad a'r Samariaid – a bu i'w Anrhydedd y Barnwr Niclas Parry, gyfrannu'r tâl a gynigiwyd iddo am ymweld â'r Gymdeithas (£50) i'r Apêl yn ogystal. Hefyd cafwyd £100 at yr apêl o'r siop

sydyn a gynhaliwyd ar ddau ddydd Gwener ym mis Tachwedd i werthu llyfrau ar gyfer y 'Dolig.

Yn gywir,  
Elwyn Richards

## DIOLCH MONA

R. MALDWYN THOMAS

**B**raint oedd cael sgwennu gair am Mona a Gwyn ar gyfer *Ichthus* yn Ionawr 2011. Mi allaf eu gweld nhw y munud yma, Gwyn yn eistedd ar ochr chwith y lle tân yn Awelon, a Mona yn sefyll a'i chefn at y pentan. A rŵan mae Gwyn wedi mynd, a Mona yn mynd i fyw at ei mab Huw a Catrin ei wraig a'r tri phlentyn ger Aberystwyth. Dymuniad didwyll pawb ohonom ydi y bydd Mona yn hapus yn ei chartref newydd. Ac yn y dymuniad yma mae pawb ohonom yn Berea Newydd yn diolch i chi Mona am flynyddoedd maith o wasanaeth, gwasanaeth annwyl a pharod bob tro.

**M**erch y Mans ydi Mona, wedi byw *Myn ardal Mynydd Bodafon yn Sir Fôn, yn Llanefydd yn Nyffryn Clwyd, ym Mhenllyn ac yna yma ym Mangor. Yn y Brifysgol fe brofodd hi win melys blynyddoedd y Noson Lawen, Triawd y Coleg a Chapel Tŵr Gwyn yn llawn dop*



*o fyfyrwyr ar nos Sul. Fe briodwyd Gwyn yn 1955 a byw yn niniweidrwydd Coleg Bangor yn y pumdegau coll, a chartrefu ar Ffordd Penrhos.*

*Bu Mona mor ddiwyd.*

*Organyddes yng Nghapel y*

*Graig, aelod o sawl pwyllgor ac arolygwr Ysgol Sul. A dweud y gwir bu Gwyn a hithau yn cefnogi popeth Cymraeg gwerth ei halen yn y fro. Mae Mona yn siaradus, yn llawn cywreinrwydd caredig ac wrth ei bodd yn seiadu y tu allan i'r capel ym mhob tywydd.*

*Merch fach dwt a main yn hoff iawn o wisgo coch - esgidiau coch a chlustdlysau coch yn aml; mae ei sgwrs yn ddifyr heb unrhyw hunandosturi, yn llawn hiwmor.*

**Ichthus**, Ionawr 2011

Mae Mona wedi cyflawni diwrnod da o waith ym Mangor, ac wrth ddiolch iddi hi 'rydym yn dymuno y gorau un iddi hi a'r teulu yn Waunfawr, Aberystwyth.

# HWYL YN YR HWYLFAN

MEILYR LYNCH

**N**os Wener, Ionawr 13, aeth criw Cic Bang, rhyw bymtheg ohonom, i'r Hwylfan yng Nghaernarfon. Canolfan chwarae i blant ydi hi ac mae caffi yno hefyd. Mi agorson nhw'r Hwylfan yn arbennig i ni fel nad oedd neb arall yno yr un pryd, a chawsom y lle i ni'n hunain felly. Fe wnaethom dreulio dwy awr yno ond aeth yr amser fel y gwynt.



Cawsom lawer o hwyl yno yn chwarae 'tag' a gemau felly. Roedd yn braf cael mynd i rywle ym mis Ionawr gan

fod y tywydd tu allan yn lawog a llwyd, a dim llawer yn digwydd ar ôl miri'r Nadolig. Diolch i Dilwen am drefnu.

## CYLCH Y CHWIORYDD

GWENNO PRITCHARD

### DORCAS

**D**ydd Mercher, Tachwedd 2il, daeth Mrs Carys Davies, o Langefni, atom i roi sgwrs am ei gwaith fel Cydlynnydd Cynllun Dorcas, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yn y Gogledd. Mae Cynllun Dorcas wedi ei sefydlu er mwyn cynorthwyo'r rhai sydd mewn angen, yma yng Nghymru, ac yn rhyngwladol, beth bynnag fyddai eu hangen. Dyma rai o'r prosiectau y bu Cynllun Dorcas yn ymwneud a hwy.

**Reaching Romania.** Mae'n ceisio rhoi cefnogaeth i bobl sydd mewn angen enbyd, pobl hŷn, cartrefi plant, cleifion mewn ysbytai meddwl, babanod bregus, y digartref, a chanolfan plant ac ieuencid. Prosiect arall y bu'n ymwneud ag o yw Cornerstone Uganda, sydd yn ceisio cynorthwyo pobl ieuanc yn Uganda, drwy roi llety, addysg, sgiliau bywyd, a hyfforddiant iddynt.

Thema'r gwaith am y flwyddyn 2016-

2017 yw “Fy mhlant gadewch i ni garu nid ar air yn unig.”

Y prosiectau ar gyfer y flwyddyn yw,

1) **Dress a Girl around the World**, sef, gwnïo ffrog syml, neu bâr o shorts, i blant mewn gwledydd sydd yn datblygu. I’r rhai nad ydynt yn hoffi gwnïo, gellir gwau tedis yn anrhegion i’r plant. (Mae patrymau ar gael.)

2) **Cysylltu gyda’r Beibl**, sef casgliad o adnodau ar gyfer gwahanol adegau.

3) **Cynllun Pontio**, sef estyn allan at bobl mewn angen, yn y capel neu’r gymuned.

4) **Cefnogi merched iau**, sydd yn brysur iawn, a’u bywydau yn llawn heriau.

Faint a wyddom ni am Dorcas, a beth yw ei hanes? Roedd Dorcas yn byw yn Joppa, ar lan Môr y Canoldir. Roedd yn wniadwraig fedrus iawn, ac arferai wnïo dillad i’r bobl dlawd yn Joppa. Yn anffodus bu Dorcas farw, ac roedd y bobl yn drist iawn. Clywyd bod Pedr yn y dref, aeth rhai o’r bobl ato, ac er

mawr lawenydd iddynt, fe atgyfododd Dorcas. Roedd gan y bobl gymaint o feddwl o Dorcas a’i gweithredoedd da, fel y sefydlwyd Cymdeithasau Dorcas

drwy’r byd, er mwyn cynorthwyo’r anghenus.



Dechreuwyd Casgliadau Dorcas, yn dilyn oedfa Gymun, yn Nhwrgwyn, gan Miss Dilys Jones, er mwyn casglu arian tuag at achosion

lleol, ac rydym ni ym Merea Newydd yn parhau i wneud hynny. Yn ystod 2016, rhoddwyd £200 i’r Samariaid. Yna rhoddwyd £200 i Hostel y Santes Fair ym Mangor. Fe ddefnyddiwyd yr arian yma i brynu nwyddau angenrheidiol i’r rhai sydd yn gorfod cysgu allan, oherwydd prinder lle yn y llety. Ar ddiwedd y flwyddyn rhoddwyd £200 i’r elusen canser, Awyr Las, a sefydlwyd gan Irfon Williams, o Fangor, sydd ei hun yn dioddef o ganser.

Ar ddechrau 2017, rydym yn bwriadu casglu arian tuag at Gymdeithas y Deillion Gogledd Cymru.

## **BORE SUL, CHWFROR 5: OEDFA DEULUOL CORWYNT CARIAD**

I LANSIO APÊL CYMORTH CRISTNOGOL AR GYFER YNYSOEDD Y PILIPINAS

### ***POBI A PHANED I'R PILIPINAS***

Bydd yr Ysgol Sul yn gwneud paned a stondin gacennau a chynnyrch cartref yn dilyn y gwasanaeth. Derbynnir cynnyrch i’r stondin ar y bore – dewch am baned a sgwrs. Y gobaith yw trefnu paned a stondin debyg fore Sul, Mawrth 5, hefyd, i ddilyn y Gwasanaeth Gŵyl Ddewi.

**Os gallwch helpu cysylltwch â Menna Baines ar 07867 697921**

## CYFARFOD Y NADOLIG

**Y**munodd Cylch y Chwirydd a'r Gymdeithas i gynnal cyfarfod y Nadolig, 8 Rhagfyr. Trio Canig, gyda'u cyfeilydd Iwan Wyn Owen oedd yn diddanu, y triawd o Fôn wedi bod yn canu i ddechrau ym mhriodas Ffion, merch Mr a Mrs Alwyn Lloyd Ellis, a Liam Hogan yn y capel ym Mehefin. Roedd y ddau wedi dod i'r cyfarfod i'w clywed yn canu unwaith eto. Roedd y cyfeilydd wedi teithio o'r Coleg Cerdd ym Manceinion a chafwyd unawd ganddo



Howells oedd yn llywyddu'r noson a diolchodd iddynt am noson werth chweil o ganu grymus. Rhannwyd mins pei a the ar ddiwedd y noson a Lis Roberts, Gwen Hughes a Cynthia Owen oedd yn gyfrifol am y baned.

---

## Y GYMDEITHAS

GARETH M TILSLEY

12 IONAWR 2017

**Y**Barnwr Niclas Parry fu yn ein hannerch yng nghyfarfod cyntaf y Gymdeithas yn 2017, a chafwyd sgwrs eithriadol o ddiddorol ganddo fel y disgwyliid. Mae Nic Parry yn adnabyddus i'r mwyafrif ohonom, naill ai fel cyfreithiwr, barnwr yn Llŷs y Goron, arweinydd ein prif Eisteddfodau,



*Y Barnwr a'r sylwebydd Nic Parry gyda llywydd y noson, Gareth Tilsley*

sylwebydd pêl-droed - neu, efallai yn agosach atom, fel gŵr Sioned, un o ferched John M Griffith.

Roedd gyda ni yn Berea ar y diwrnod y bu farw cyn-reolwr pêl-droed Lloegr, Graham Taylor, a daeth hyn ag atgofion i Nic Parry o'i gyfarfod pan yw sylwebydd pêl-droed ifanc yn mynd ar ymweliad

â Chlwb Pêl-droed Watford pan oedd Graham Taylor yn rheolwr llwyddiannus iawn ar y tîm hwnnw. Yn naturiol soniodd am niferoedd o deithiau gyda tîm Cymru ar draws y byd, a chawsom ei argraffiadau o leoedd fel Azerbaijan gyda'r cyferbyniad eithradol rhwng y tlodï yno a byd y pêl-droedwyr cyfoethog yn ein gwlad ni.

Cafodd ei addysg yn ysgolion Cymraeg Yr Wyddgrug lle roedd ei dad yn brifathro Ysgol Glanrafon a'i fam yn athrawes yn Ysgol Maes Garmon, ac eglurodd sut y dylanwadodd profiadau ei fam fel ynad heddwrch arno a llunio ei benderfyniad i astudio'r gyfraith, a gwnaeth hynny ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth. Cawsom ei hanes fel cyfreithiwr ifanc yn ei filltir sgwâr yn Yr Wyddgrug yn ymwneud â

nifer fawr o achosion, a rhai ohonynt, fel yr achos pan ymosododd ci dyn yr oedd ef yn ei amddiffyn o ddiffyg rheolaeth ar yr anifail, ar glerc y llys, yn peri difyrwch i'r gynulleidfa.

Cafodd ei apwyntio yn Gofriadur yn 2001, a'i ddyrchafu'n Farnwr yn Llys y Goron yn 2010 - swyddi cyfrifol a difrifol dros ben, gan ei fod ei ddedfryd yn effeithio yn drwm ar fywydau pobl, ac yn amlwg roedd yn ymwybodol iawn o'i gyfrifoldeb. Daeth ag ychydig 'brops' gydag ef, sef regalia traddodiadol Barnwr yn Llys y Goron, i ddangos fel y disgwyliid iddo wisgo ar achosion seremonïol. Ond mae'n amlwg nad y seremonïau oedd yn bwysig i Nic, ond yn hytrach gweinyddu cyfiawnder i'r trueiniaid sy'n ymddangos o'i flaen yn y llys.

## CHWEFROR 2016

**G**eraint Thomas, y ffotograffydd sydd â busnes yng Nghaernarfon, oedd yn siarad am lynnoedd Eryri yng nghyfarfod Tachwedd o'r Gymdeithas. Mae Geraint yn hanu o Ddyffryn Nantlle ond yn awr yn byw yn y Bala. Wedi rhai blynyddoedd ym myd teledu dechreuodd dynnu lluniau'n broffesiynol ac agorodd siop Panorama yn Stryd y Plas, Caernarfon.

Bu'n dangos lluniau a dynnodd dros gyfnod o flwyddyn o lynnoedd Parc Eryri ar gyfer ei lyfr, *Cyfrinachau Llynnoedd Eryri*, sydd hefyd yn cynnwys hanes y chwedlau sy'n gysylltiedig â hwy. Ef yn ogystal oedd y ffotograffydd ar gyfer llyfr Gwyn Thomas, *Gair yn ei Le*, sy'n dangos 50 lle oedd ag arwyddocad arbennig i'r bardd a'r awdur.





# PWYSIGRUYDD CENHADU

ADOLYGIAD ERIC JONES

**W**edi fy ymddeoliad o fod â gofal am eglwysi, bûm yn crwydro ymhell ac agos i wasanaethu ar y Suliau,

gan ymweld â rhai eglwysi nas gwelais ers deugain mlynedd a mwy. Derbyniad groeso eithriadol o gynnes yn ddi-feth, ond gan amlaf byddaf yn derbyn ymddiheurad llaes hefyd, “Ychydig sydd yna ohonom erbyn hyn.” Yn wyneb y dirywiad affwysol does ryfedd fod yna ddigalondid ac anobaith am ddyfodol cymaint o’n heglwysi bellach. Fel y dywed David Ollerton yn ei gyflwyniad i’w lyfr newydd, *Cenhadaeth Newydd i Gymru*, “Y mae mwy o bobl yn mynd i’r nefoedd nag sydd yn dod i’r eglwys am y tro cyntaf.”

Dysgodd yr awdur ein hiaith, ac ymdrechodd yn galed i’n hadnabod ni’r Anghyffurfwyr yn bennaf. Addasiad yw’r gyfrol o’i draethawd ymchwil am ddoethuriaeth a gyfiethiwyd yn ddeheuig gan Meirion Morris. Cyhoeddwyd y llyfr gan Gyhoeddiadau’r Gair ar ran Cymrugyfan, a gefnogir gan Fudiad Efengylaidd Cymru a’r Gynghrair Efengylaidd.


Rhennir y llyfr yn dair adran, sef:

**(i) Agweddau: *Sut ac ym mha ffordd y mae Cymru’n wahanol?*** Yma cawn

ddadansoddiad gwerthfawr ac eang o fywyd Cymru ddoe a heddiw e.e. yn ieithyddol a diwylliannol.

**(ii) Dulliau: *Sut y mae Eglwysi wedi bod yn cyflawni cenhadaeth?*** Yn yr adran hon cyfeirir at ymateb yr eglwysi i gomisiwn

mawr ein Harglwydd sef i wneud “...disgyblion o’r holl genhedloedd.” Nodir chwe ymateb, sef gan yr eglwysi Efengylaidd traddodiadol mewngyrchol, yr eglwysi Efengylaidd allgyrchol, sy’n ymestyn allan, Eglwysi Rhyddfrydol, Missio Dei, Lusanne a’r Egin Eglwys. Pa ddull sy’n ddisgrifiad o’n heglwys ni tybed? Darllener y gyfrol!



**(iii) Cenhadaeth Newydd: *I ble’r awn ni o’r fan yma?*** Yn yr adran yma cawn drosolwg gonest ar y rhagolygon ar gyfer y deng mlynedd nesaf. Cydnabyddir bod peth twf yn digwydd yn yr Eglwysi Efengylaidd sy’n ymestyn allan, ac o fewn y rhai sy’n ymarfer y dull Lusanne, sy’n gyfuniad o feithrin Cristnogion tra maent yn ymestyn allan hefyd i’r cymunedau. Ni chefais fawr o newydd-deb yn yr adran hon. Tybed ai ymgais sydd yma i amlinellu’r cyfleoedd cenhadol newydd ar gyfer y mudiadau efengylaidd? Nod *Cymrugyfan* ydyw plannu eglwysi a chryfhau eraill. Hoffais y sylw bod angen

“...siarad am strategaeth o ail eni, yn hytrach na goroesi”.

Gofynnwyd imi am adolygiad o rhyw 400 gair – pwced fechan iawn ydyw i ddal môr o rhyw 90,000 o eiriau, heb sôn am y 35 tudalen sy’n llawn o siartiau, ynghyd â’r sylwadau. Gobeithio nad yw’r gofod a roddir yn adlewyrchu’r gofod a’r amser a rown fel eglwys i’n cenhadaeth. Emil Brunner a ddywedodd, “Fel y mae’r tân yn byw trwy losgi, felly’n union trwy

genhadu y mae’r Eglwys yn byw”. Bydd yr eglwys sydd eisiau byw yn siŵr o elwa o’r holl ymchwil a ddadlennir yn y traethawd hwn.

**CENHADAETH NEWYDD I GYMRU:**  
**Gweld eglwys yn ffynnu ar draws Cymru yn yr unfed ganrif ar hugain**  
David Ollerton

*Cyhoeddiadau’r Gair, £9.99*

---

# GWYN EU BYD Y RHAI SY’N GALARU

---

MYFYRDOD YNG NGHWMNI ELWYN LLOYD JONES

**B**eth amser yn ôl, cefais lyfryn gan weddw cyfaill o weinidog. Teitl y llyfr ydi “*The Plain man looks at the Beatitudes*” gan y diweddar Dr William Barclay, pregethwr, athro a darlithydd ar y Testament Newydd ym Mhrifysgol Glasgow.

Mae’n arfer gennym ym Merea Newydd, wrth goffâu aelod ymadawedig, gloi’r munud o dawelwch gydag un o’r ‘Gwynfydau’: “Gwyn eu byd y rhai sy’n galaru oherwydd cânt hwy eu cysuro.” (Mathew 5.4). Dywed y Dr Barclay ei fod yn syndod sôn am lawenydd galar a gwynfyd y torcalonnus. Galar ydyw hwn sy’n treiddio i’r galon. Nid rhywbeth ffug deimladol mohono ond galar llym, brathog a dwys. Y mae i’w weld yn amlwg yn ymddygiad dyn, yn ei wyneb ac yn ei ddagrau. Y mae dyn yn rhwym o ddangos y galar hwn i’r byd ac i Dduw

oherwydd na all beidio. Beth, felly, oedd yr Iesu yn ei olygu pan soniodd am wynfyd y sawl oedd wedi torri ei galon?

Mae’r Dr Barclay yn cynnig pedwar esboniad.

1. ‘Does dim amheuaeth fod gan alar werth ynddo’i hun a bod ganddo le mewn bywyd ac ni all dim arall gymryd ei le. Mae rhywbeth ar goll mewn bywyd hyd nes i alar dreiddio iddo. Cyfeiria’r Athro at hen ddihareb Arabaidd a ddywed: “Mae pob heulwen yn creu anialdir” Mae’n ddigon posib dweud mai galar yw ffynhonnell darganfyddiadau mewn bywyd. Mewn galar mae dyn yn darganfod yr hyn sy’n bwysig a’r pethau nad ydynt o bwys. Mewn galar mae dyn yn darganfod ystyr cyfeillgarwch ac ystyr cariad. Mewn galar mae dyn yn darganfod a yw ei ffydd yn rhywbeth arwynebol ynteu ai sylfaen angenrheidiol

ydyw ar yr hyn y dibynna ei holl fywyd. Pan yw dyn mewn galar y mae'n darganfod Duw.

2. Mae Luc yn adrodd y Gwynfyd hwn mewn ffurf wahanol: "Gwyn eich byd chwi sydd yn awr yn wylo, oherwydd celech chwerthin. (Luc 6.21) " Ac yn Luc 16.25 cawn hanes y Dyn Cyfoethog a Lasarus, lle mae'r dyn cyfoethog yn pledio ar Abraham am drugaredd ond mae Abraham yn ateb iddo: "Fy mhlentyn cofia iti dderbyn dy wynfyd yn ystod dy fywyd, a Lasarus yr un modd ei adfyd; yn awr y mae ef yma yn cael ei ddiddanu a thithau yn dioddef mewn ingoedd."

Yn ystod bywyd person ar y ddaear y mae dau ddewis yn ei wynebu. A fydd yn dewis y llwybr a ddaw ag elw iddo ar ei union, hapusrwydd ar ei union a rhyddid oddi wrth ofid neu drallod ar ei union? Ynteu a fydd yn cymryd cwrs disgyblu a ddaw â thrafferthion ac o bosib galedi, erledigaeth ac aberth? Mae dysgeidiaeth Cristnogion yn glir. Yr hwn sydd yn barod i ddewis ymboeni fydd yn diweddedd yn profi gwynfyd.

3. Mae'n bosib bod y Gwynfyd yma, i ryw raddau o leiaf, yn golygu bod gwynfyd yn perthyn i'r sawl sydd yn gofidio am bechod, digalondid a dioddefaint y byd. Mae'n disgrifio'r dyn y mae ei galon ar dân dros y rhai sydd yn dioddef gormes a thrais ac anghyfiawnder.

Yn y ddameg 'Y Defaid a'r Geifr' (Mathew 25. 31-46) mae'r Iesu yn dysgu bod ymddygiad dyn ato ef yn cael ei

weld yn sut y mae yn ymddwyn at bobl eraill. Mewn llawer ffordd dirmyg yw'r pechod mwyaf anghristnogol o'r holl bechodau.

Honnir i George Bernard Shaw ddweud unwaith: "Ni fu genny' erioed lawer o feddwl o'r dosbarth gweithiol ar wahân i gael gwared â nhw a chael pobl a synnwyr ganddynt yn eu lle." Y mae hyn yn hollol groes i ddysgeidiaeth ac ymddygiad Iesu. Dro ar ôl tro yn yr Efyngylau, dywedir i'r Iesu deimlo tosturi. Ystyr sylfaenol yr Ymgawdoliad yw fod Duw yn teimlo gymaint dros ddynoliaeth fel ei fod yn Iesu Grist yn fwriadol wedi ei uniaethu ei hun â phechod, gofid a dioddefaint a sefyllfa'r ddynoliaeth. Nid y rhai a edrychai ar eu cyd-ddyn gyda dirmyg, nid y rhai a edrychai yn oeraidd bell ar ddynoliaeth yn ei hymdrechion a anrhydeddid, ond y rhai a bryderai ac a ofidiai fel bod y gofid oedd yn eu calon yn eu gyrru i wasanaethu'r ddynoliaeth. Byddai'r byd yn llawer tlotach heb y rhai a ofidia yn rymus am gyd-ddyn.

4. Ond beth am ystyr real y gwynfyd yma? Y gwir ystyr yw: Gwyn ei fyd y gŵr fydd yn tristáu pan sylweddola ei fod yn bechadur. Y mae gwynfyd mewn gofid, y mae gwynfyd mewn galar am bechodau a dioddefaint dyn. Y mae gwynfyd arbennig yn y galar duwiol fydd yn arwain at yr edifeirwch a gaiff faddeuant gan Dduw. Pan ddaw'r maddeuant hwnnw y mae esmwythdra am edifeirwch y galon ac mae anogaeth mewn bywyd a ddaw oddi wrth Dduw yn unig.

# APÊL EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU 2017

## HELPU POBL Y PILIPINAS

---

ANNA JANE EVANS

**Un o weithwyr Cymorth Cristnogol sy'n sôn am ei hymweliad y llynedd â'r wlad a gaiff ei helpu trwy Corwynt Cariad, apêl arbennig Eglwys Bresbyteraidd Cymru eleni.**

**B**lwyddyn Newydd Dda i chi ddarllenwyr *Ichthus!* Mae hi'n ddechrau blwyddyn Apêl Arbennig Corwynt Cariad pan fydd holl eglwysi EBC yn codi arian at waith Cymorth Cristnogol yn y Pilipinas.

Ychydig iawn a glywn ni am Ynysoedd y Pilipinas – ambell storm yn ddigon cryf i gyrraedd ein newyddion, ambell adroddiad am yr arlywydd newydd Duterte sy'n gymeriad braidd yn wyllt a Herodaidd, ond fawr o ddim arall. Eto, y diwrnod o'r blaen mi dderbyniais e-bost

gan Allan Vera, pennaeth gwaith Cymorth Cristnogol yno, a dyma oedd ganddo i'w ddweud:

'Roedd corwynt y Nadolig yn gryf iawn. Roedd fy newyddlen Gweplyfr yn gymysgedd ryfedd o ddatliadau Nadolig llawen a lluniau o gartrefi wedi eu chwalu. Mae Cymorth Cristnogol a'n partneriaid yn parhau i gydlynu ac i asesu'r difrod a cheisio canfod yr adnoddau i gyflenwi'r angen brys.'

Un o'r prif heriau i bobl yr ynysoedd



*'Ground zero' Mantuyong yn dilyn y tân anferth ym mis Mawrth 2016*

---

yw effeithiau newid hinsawdd – maent yn disgwyl o leiaf ugain o gorwyntoedd bob blwyddyn ond dros y blynyddoedd diwethaf mae cryfder ac amllder y corwyntoedd wedi cynyddu'n ddirfawr ac nid yw'n anghyffredin iddynt ddioddef 30 i 35 o stormydd yn flynyddol bellach. Mae cael gwyntoedd 140 milltir yr awr yn beth digon arferol mewn corwynt erbyn hyn – fedra'i ddim dechrau dychmygu hynny. Dwi'n teimlo'n ddigon nerfus pan fydd rhagolygon y tywydd yn darogan gwyntoedd 70 mya a finnau'n byw mewn tŷ cerrig diogel ar dir sy'n ddigon uchel i osgoi llifogydd. Ar ôl ymweld â rhai o gymunedau a slymiau dinasoedd arfordirol yr ynysoedd bregus hyn, mae'n anodd dechrau dychmygu bod yno mewn corwynt.

Bydd arian Apêl Corwynt Cariad yn sicrhau gallu partneriaid Cymorth Cristnogol i ymateb i argyfyngau yn ogystal â chefnogi eu gwaith parhaol o ddatblygu cymunedau i oroesi a ffynnu. Mae llawer o'r gwaith yn ymwneud â galluogi cymunedau i fynnu eu hawliau a sefyll ar eu traed eu hunain.

Rhan gwbl hanfodol o'r gwaith tymor hir hefyd yw cryfhau gallu cymunedau i oroesi argyfyngau – ac yn sylfaenol i hynny mae'r gallu i baratoi ac ymateb yn briodol. Mapio'r gymuned a nodi lle mae'r teuluoedd/unigolion mwyaf bregus yn byw fel bod help yn cael ei anelu atynt fel blaenoriaeth; nodi pa ardaloedd sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd/tirlithriadau; cadw ffosydd a draeniau'n gyson lân; cynnal ymarferiadau tân, ymarferiadau achub bywyd; trefnu a chydlynu timau achub, timau diffodd

tân a thimau meddygol o wirfoddolwyr cymunedol. Un o'r profiadau sydd wedi aros gyda mi, ac un sy'n tystio i effeithlonrwydd y paratoi hwn, oedd bod yng nghymuned Mantuyong, slym lle cafwyd tân anferth yn oriau mân y bore ym mis Mawrth 2016. Dechreuodd y tân pan oedd pawb yn cysgu, ond er i dros 600 o dai losgi'n ulw, llwyddodd dros 2,000 o bobl i ddianc yn ddianaf; ni chollwyd yr un bywyd, diolch i'r drefn oedd ar waith yn y gymuned a'r gwaith paratoi ymlaen llaw. Wrth i ni ymweld â'u 'ground zero' roedd aroglau mwg yn parhau yn yr awyr ac roedd yn anodd iawn peidio â thorri i lawr wrth weld dewrder yr unigolion oedd yn dangos y ffordd o amgylch y difrod. Fan hyn oedd fy nghartref i, meddai Menchu – 'it was my pride and joy'. Ar yr un pryd roedd eu balchder yn y ffaith eu bod wedi llwyddo i ganu'r gloch ac arwain pawb i ddiogelwch yn amlwg, a'u penderfyniad i fynnu bod y cyngor lleol yn mynd ati i ailadeiladu cartrefi newydd ar gyfer y teuluoedd a gollodd bopeth, yn destun gobaith ac ysbrydoliaeth.

Bydd eich cyfraniadau chi eleni'n rhan o ailadeiladu cymuned Mantuyong. Bydd eich haelioni yn dwyn gobaith newydd i rai o gymunedau mwyaf bregus a thlawd yr ynysoedd.

Cofleidiwch y bobl yn eich gweddiâu yn ystod y flwyddyn – mynnwch eu cwmni yn eich addoliad a boed i flwyddyn yr apêl droi'n fendith i chi fel eglwys ym Merea Newydd.

Diolch o galon i chi am eich cefnogaeth gyson a pharod i waith Cymorth Cristnogol.

# SWYDD NEWYDD, HER NEWYDD

DELYTH OSWY

**W**edi rhai blynyddoedd fel swyddog hyfforddi efo Cyngor Conwy, y Pasg diwethaf dechreuais fel cydlynnydd hyfforddiant i Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

‘Ond pwy wyt ti’n hyfforddi?’ mae pobl yn gofyn, a dyna o’n innau’n ei ofyn wrth imi gychwyn ar y gwaith.

Dysgais lot ers hynny. Wyddwn i ddim fod yr enwad, yn ogystal â chyflogi tua deugain o weinidogion, yn cynnal degau o weithwyr Cristnogol (neu ‘weithwyr cenhadol’) sy’n gwneud gwaith cyffrous ac arloesol. Pobol fel Troy – dyn ifanc mawr croenddu, sy’n rhedeg clwb cyfrifiaduron i hogia mewn ardal ddigon tlawd yn y cymoedd; Tamsin sy’n gweithio efo mamau a phlant bach yn Ystradmynach; Rebecca o India sy’n gweithio efo teuluoedd ar stad ddifreintiedig Penrhys, ac yn y blaen. Mae yna hefyd gangen Saesneg ei hiaith gan yr enwad – llawer o bobl a lleoedd newydd i mi ymgyfarwyddo â nhw felly.

Bydd pawb sy’n gweithio i gyflogwr mawr yn cymryd hyfforddiant parhaus yn ganiataol – hanfodol mewn byd sy’n newid yn gyflym. Drwy hyfforddiant ystyriwn yr hyn sy’n gweithio a’r hyn nad yw’n gweithio; sut mae gwneud pethau’n well, a’r hyn y bydd angen i ni fod yn ei wneud yn y dyfodol. Mae

sefyllfa crefydd a’r eglwys yn newid fwy nag erioed o’r blaen, a thrwy hyfforddiant gobeithiwn roi taclau yn y bag tŵls i helpu gweithwyr ac aelodau i addasu bywyd yr eglwys ar gyfer heddiw ac yfory, gan ddal ein gafael yr un pryd ar wirioneddau oesol yr Efbngyl.



Un grŵp y bŵm yn gweithio gyda nhw yw gweinidogion newydd ac ymgeiswyr am y weinidogaeth. Mae tua phymtheg o ddynion a merched ifanc yn cyfarfod yn Nhrefeca bob tymor. Mae’n galonogol, yn heriol, ac yn gyfrifoldeb gweithio efo nhw – cawsom ymweliad â Charchar Caerdydd; sgwrs gan ferch a gafodd ei chamdrin yn yr eglwys; arweiniad ar addoliad cyfoes, ac amrywiaeth eang o bynciau eraill.

Mae cwrs chwe wythnos i weithwyr plant yn cael ei gynnal ar hyn o bryd,

ac rydym yn adolygu cyflwyniad i weithwyr newydd. Mae galw am sesiynau i flaenoriaid a phregethwyr lleyg; creu defnyddiau a diweddarau adnoddau ar gyfer eglwysi; a hyfforddiant mewn swydd i weinidogion. Digon i'w wneud, felly.

Mae'r gwaith hyd y bo modd yn gydenwadol – yr un sefyllfa yr ydym i gyd

yn ei hwynebu, wedi'r cyfan: parchu a gofalu am yr hyn rydym wedi ei etifeddu (traddodiadau, hen adeiladau, hen systemau) sy'n gwasanaethau'r 10% sy'n mynychu capel ac eglwys; ac, ar yr un pryd, buddsoddi a mentro wrth weithredu'r Efengyl mewn modd perthnasol i'r 90% nad ydynt, ar hyn o bryd, yn mynychu addoldy.

## PARTI 'DOLIG YR YSGOL SUL

**A**r ôl bod mor brysur gyda'u gwasanaeth Nadolig ar 18 Rhagfyr, cafodd y plant gyfle haeddiannol i ymlacio a chael hwyl yn eu parti y noson wedyn. Wedi i bawb fwyta llond ei fol o'r danteithion hyfryd a oedd wedi'u paratoi, drwodd â nhw i'r festri, a oedd yn edrych ac yn swnio'n lle tra gwahanol i'r arfer y noson honno gyda goleuadau lliwgar yn troelli'n wyllt a churiadau cerddoriaeth roc yn ysgwyd y lle. Oedd, roedd hi'n ddisgo yma a bu hwyl ar y dawnsio, gyda rhai yn

fwy parod na'i gilydd i fentro i ganol y llawr! Yna roedd hi'n amser llonyddu gan ei bod yn bryd i Siôn Corn gyrraedd. Fe ymddangosodd yn ei holl ogoniant wedi inni roi tro neu ddau ar y gân 'Pwy sy'n dŵad dros y bryn...' Wrth iddo fynd ati i rannu bocsys o siocledi i bawb, cafodd yr hen wr mwyn glywed hanes tipyn o'r plant a chael gwybod pa anrhegion yr oeddent yn gobeithio'u cael fore Nadolig, Diolch i bawb a helpodd gyda'r parti llwyddiannus hwn.

## CYMUN YN Y CARTREF

**Os oes aelod sy'n methu dod i'r oedfaon a fyddai'n hoffi cael cymun gartref, a wnewch chi gysylltu â blaenor eich corlan neu'r gweinidog**

**(elwynrichards@btinternet.Com / 01286 676435)**

**i drefnu hynny, os gwelwch yn dda.**

# EGLWYS Y GLYN MC, CAPELULO

(BELLACH YN ANNEDD)

## CYFRES CAPELI CEFYN BURGESS

BERYL S. WILLIAMS

‘Ga’ i ofyn i chi – ?’ meddwn wrth Cefyn.  
‘Am yr edau? Meddwl tybed pam – ?’

**N**ewydd brynu darlun brodwaith ganddo yr oeddwn i ac yn cael fy hun yn troi’n ôl i’w holi: tybed pam y gadawyd y tameidiau hir o edau heb eu torri? Wrth gwrs, roeddwn wedi dotio at ei bortread o gapel bach Y Glyn, llun rhyw saith modfedd wrth chwech heb gyfri’r mownt a’r ffrâm, wedi’i wnïo mewn llwyd a du ar fwslin tenau, golau. Ond sylwi wedyn ar y gweddillion o edau i’w gweld yn welw drwy fwslin y cefndir. A’r rheini’n glymau llac, yn esgyn o’r to ac o’r ddau dalcen o bobtu, cyn diflannu yn anorffenedig dan y mownt.

Waeth cyfaddef i mi wneud y nesaf peth i ddim o waith brodio ar ôl fy nyddiau ysgol. Eto i gyd, mae acw lond droriau ohono, pethau wedi’u hetifeddu gyda’r blynyddoedd, yn llieiniau byrddau a hambyrddau ac ati, o bwythi lliw crai Madeira neu amryliw fel rhai llygad-y-dydd. A phe digwyddwn daenu unrhyw un ohonynt y tu chwith allan ar gyfer te prynhawn, prin y byddai’r ymwelydd yn ddim callach; ni welid yr un tamaid o gynffon edefyn yn unman.

Swniwn yn ddynes gysetyd yn gofyn y fath beth, ond nid dyna oedd o. Yn hytrach, a oedd yn ceisio cyfleu rhywbeth?

Dyna oedd gen i. Does dim gwastraff diystyr yng ngwaith gwir artist.

Roeddwn yn gyfarwydd â’r capel bach o’r plentyndod. Safai ger y ffordd, ar y chwith wrth fynd am y Sychnant. Adeilad twt, llwyd fel yn y llun. Dau gam drwy’r giât a byddech yn y drws, yn cysgodi dan big ei bortsh; i’r dde wedyn, dwy ffenestr dal, to llechi, wal gerrig isel rhyngddo a’r lôn, a dyna ni.

Yn nes ymlaen, ar draws y ffordd, safai swyddfa bost Capelulo, a gedwid gan berthnasau i’r mam. Rhywbeth i edrych ymlaen ato oedd mynd yno i de ar ddiwrnod o haf, nid i’r post ei hun, lle roedd Mr Davies wrth ei bethau y tu ôl i’r cownter, ond yn eu cartref ar y bryncyn uwchben, gyda Harriet, ei wraig, a Heulwen, ei chwaer hithau. Roedd hwnnw’n owtin hudolus i mi o’r foment y daliem y bws bach coch o ganol Penmaenmawr i fynd yno. Fel bws ‘hen bentra’ y cyfeirid ati, a arbedai orfod penderfynu ai bws Dwygyfylchi ydoedd ynteu bws Capelulo, oherwydd arferid y ddau enw. Ond yn ddiamau post Capelulo oedd y llythyrdy ac i Ysgol Capelulo yr âi plant yr ardal. Mae swyn yn yr enw ei hun, a lle i ddiolch i Sant Lulo, neu Ulo, am y capel anwes (diflanedig) a gysegrwyd iddo ar waelod y Sychnant yn y Canol Oesoedd. Ar ben hyn oll, pen y daith oedd y Fairy Glen Hotel! (Wrth dalcen gorllewinol y



gwesty rhed afon Gyrach fechan, chwim i lawr ei chwim lledrithiol. Nant Daear Llwynog yn Gymraeg; cywirach enw, mae'n siŵr, ond digroeso braidd at bwrpas tafarn.)

Roeddwn wrth fy modd yn cael te gyda Harriet a Heulwen. Y gwranddo ar sgwrs merched ac yn fwy na dim eu clywed yn galw fy mam yn Blodwen. Wedi cymysgu teulu yr oeddym a gwnaem yn fawr o hynny. Pobl ddŵad, a'u gwreiddiau yn rhywle arall, ydi gweinidog a'i wraig fel rheol. Doedd neb yn eu galw wrth eu henw bedydd bryd hynny ac, er yn cymeradwyo arfer ffri yr oes fodern, ers yr hen drefn ynof o hyd yn fy nhu mewn yn rhywle.

Aelodau yn Horeb, addoldy'r Annibynwyr, oedd teulu'r post, capel nobl, hirsgwar ac, yn wahanol i'r drefn yn Y Glyn, roedd gweinidog ganddynt. Blaenor oedd gan Y Glyn, a chyfeirid ato'n ddi-feth fel Thomas Jones Y Glyn. Roeddwn i'n ei adnabod yn dda; ef oedd ein dyn lludw wythnosol ni. Dyn byr o gorff ond cydnerth, mae'n rhaid. Ambell waith rhannai sgwrs fer henaduriaethol gyda fy nhad wrth y drws cefn, neu wneud sylw ar benawdau pregeth y Sul, cyn halio'n tun lludw ar ei gefn a dringo'r grisiau serth a chrymu ymlaen ar hyd y llwybr nes cyrraedd y lorri ar allt yr

Esplanade.

'Wel, heb y rheini –' dechreuodd Cefyn yn ei ddull petrus, diymhongar. Aethai rhyw funud neu ddau hir heibio a minnau'n aros. 'Heb y darnau o edau, mi fyddai'r capel mewn gwagle.'

At dyna'r union eiriad, ni allaf fod yn siŵr. Mae'r blynyddoedd yn mynd. Ond dyna'i hanfod. Ar y pryd gwyddwn y byddai'n rhaid i mi, o ran cwrteisi a pharch at artist mor hynod, fodloni ar ei ateb enigmataidd.

Ceisio'i ddehongli drosod fy hun, hwyrach. Cnoi cil.

Yn llythrennol, nid yw Capel y Glyn mewn gwagle. Mae tŷ o hyd y drws nesaf iddo ond heb fod yn sownd. At hynny, heb i chi sylweddoli wrth sefyll yn sgwâr o'i flaen, mae hefyd lawr is iddo, dan y lôn, cyn i'r tir syrthio tua'r gwastadedd lle mae afon Gyrach bron â chyrraedd y môr.

Ond anwybyddwyd

hyn oll yn y llun. Er mor gwbl hawdd i'w adnabod, er mor driw i'r nodweddion pensaernïol, gweddnewidiwyd Y Glyn.

Mae'r edafedd yn chwyrlio fel rhubanau a balwnau, ac afiaith ym mhwythi cerrig y wal sy'n gwarchod libart cul y capel. Ymddengys fel petai'r Glyn yn llawenhau, ei fod ar fin ei ddyrchafu i'r entrychion gan ei lynnau o edau, a chan nerth yr hyn a fu: y penlinio yn y sêd fawr a'r gweddiau o'r frest.



Eglwys y Glyn gan Cefyn Burgess  
(darlun brodwaith)

# SALM AC EMYN

	EMYN	SALM
<b>Ionawr 29</b>	397 Fflur Edwards	1 Catrin Edwards
<b>Chwefror 5</b>	Oedfa Deulu i gyflwyno Apêl Corwynt Cariad	
<b>Chwefror 12</b>	125 Hanna Edwards	6 Owain Edwards
<b>Chwefror 18–26</b>	Gwyliau hanner tymor	
<b>Mawrth 5</b>	Oedfa deulu Gŵyl Ddewi	
<b>Mawrth 12</b>	139 Elen Gwynn	120 Owain Gwynn
<b>Mawrth 19</b>	155 Cara Davies	93 Rhys Roberts
<b>Mawrth 26</b>	391 Bedwyr Williams	121 Llio Williams
<b>Ebrill 2</b>	Oedfa deulu ar thema'r Pasg	
<b>Ebrill 8–23</b>	Gwyliau'r Pasg	
<b>Ebrill 30</b>	393 Siôn Roberts	150 Danial Jones

Diolch yn fawr am eich cyfraniad.

Os bydd plentyn neu deulu'n newid Sul gyda rhywun arall, hysbysu Kathy - [kathysion@btinternet.com](mailto:kathysion@btinternet.com) neu 364957. Diolch.

**Mewn cyfarfod un bore Sul yn Rhagfyr derbyniodd y gweinidog bump o aelodau newydd, pedwar o Berea ac un o Bethlehem, Abergwyngregyn.**

**Bu pob un yn cymryd rhan yn y gwasanaeth cyn iddynt gael eu derbyn yn swyddogol yn gyflawn aelodau.**

**Rhoddwyd anerchiad pwrpasol iddynt gan un o'r blaenoriaid, Mrs Delyth Oswy Shaw, Cydlynnydd Hyfforddiant y Cyfundeb. Cyflwynwyd copi o Beibl net i bob un gan flaenor y mis, Miss Gwenno Pritchard.**



*O'r dde: Mari Williams o Abergwyngregyn, Siwan Williams, Lois Wiliam, Guto Davies a Tomos Lynch. Cafodd Tomos a Mari eu bedyddio hefyd cyn cael eu derbyn.*

# Y DYDDIADUR

---

## SEIADAU CHWEFROR A MAWRTH 2017

---

**2 Chwefror:** Adeiladu Tŵr (Lc 14:24-33) - *Gwenno Pritchard*

---

**16 Chwefror:** Y Samariad Trugarog (Lc 10:25-37) - *Geraint P. Jones*

---

**2 Mawrth:** Y Goruchwyliwr Anonest (Lc. 16:1-13)  
*Gareth Emlyn Jones*

---

**16 Mawrth:** Y Dyn Cyfoethog a Lasarus (Lc 16:19-31)  
*Cledwyn Williams*

---

**23 Mawrth:** Y Ddafad Golledig a'r Darn Arian a Gollwyd (Lc 15:1-10)  
*Eirian Howells*

---

**30 Mawrth:** Y Mab Colledig a'r Mab Hynaf (Lc 15:11-32)  
*Elwyn Richards*

---

## CORNEL CODI GWÊN

GLYN  
LLOYD  
JONES



## CASGLIAD DORCAS

Casgliad sy'n cael ei wneud pan fydd pobl ar y ffordd allan o'r capel ar ôl gwasanaeth Cymun yw Casgliad Dorcas. Mae'r arian yn mynd at wahanol achosion da. Ar hyn o bryd rydym yn casglu tuag at Gymdeithas y Deillion Gogledd Cymru. (Gweler hefyd yr erthygl ar dudalennau 5-6).

# HWYL Y PARTI NADOLIG

---

